# Prifysgol Abertawe

## Cyfadran Meddygaeth Lechyd a Gwyddorau Bywydd

## Llynfryn yr Ymgeisydd



Prifysgol Abertawe
Swansea University

# SWANSEA UNIVERSITY

## Making Waves Since 1920



**Y Neuadd Fawr**
Lleoliad celfyddydau diwylliannol amlbwrpas ar gyfer y Brifysgol a'r gymuned ehangach



**Yr Abaty**
Adeilad hanesyddol trawiadol, wedi'i amgylchynu gan gynefinoedd bywyd gwyllt, yng nghanol Campws Singleton: un o'n dau gampws glan môr arobryn

Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol a arweinir gan ymchwil sy'n ffynnu ar archwilio a darganfod. Rydym yn arloesol o ran ein hymagwedd at addysgu a'n gweithrediadau, ac yn falch o'n cymuned gydweithredol o staff.

Mae gennym hanes hir o weithio gyda byd busnes a diwydiant ac mae ein hymchwil gyfredol yn cael effaith ehangach o lawer ar iechyd, cyfoeth, diwylliant a lles cymdeithas fyd-eang.

Mae gennym fwy na 27,000 o fyfyrwyr a 3,800 o staff ac rydym wedi cyflawni twf aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf wrth i ni gyflawni mwy na llawer o brifysgolion mwy, a bod yn wydn wrth ymaddasu i amgylchiadau newidiol. Serch hynny, nid yw'r llwyddiant hwn wedi amharu ar yr amgylchedd cyfeillgar ac anffurfiol sydd bob amser wedi bod yn nodwedd o'r “profiad o fod yn Abertawe”.

Ar ôl dathlu ein canmlwyddiant yn 2020, rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyfraniad y Brifysgol at weddnewid Abertawe a'i gwneud yn ddinas ragoriaeth. Wrth i ni barhau â'n taith fel prifysgol yn yr 21ain ganrif, rydym yn edrych ymlaen at fod yn sefydliad byd-eang go iawn, gan ganolbwyntio ar y materion mawr a gwella bywydau wrth barhau i gynnig addysgu llawn ysbrydoliaeth.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym wedi bod yn aelod o Siarter Athena SWAN ers 2008. Mae’r sefydliad wedi sicrhau Gwobr Arian, sef y safon uchaf a ddyrennir i brifysgolion yn y DU ar hyn o bryd, a ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i gyflawni hyn.

Mae ein campysau glan môr trawiadol yn ein gwneud yn lleoliad dymunol ar gyfer staff o bedwar ban byd, ac mae ein cymuned amlddiwylliannol yn cynnig agwedd fyd-eang, gan alluogi'r rhai hynny sy'n ymuno â ni i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i hybu eu gyrfaoedd.

**Ymunwch â ni a helpwch i lywio ein canrif nesaf o arloesi a rhagoriaeth.**

# Gwobrau a Safleoedd

Gweler ein rhestr lawn o Wobrau a Safleoedd ar-lein

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2023
12FED SAFLE PRIFYSGOL Y FLWYDDYN
12FED YN Y DU
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN

AR Y BRIG
YNG NGHYMRU
GUARDIAN
UNIVERSITY GUIDE 2024

93%
O RADDEDIGION
YN GWEITHIO,
YN ASTUDIO A /
NEU'N YMGYMRYD
GWEITHGAREDDAU
ERAILL
HESA 2022

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS
37FED YN Y DU
101-200 YN Y BYD
(Times Higher Education Impact Rankings 2023)

86%
O'N HYMCHWIL
YN ARWAIN Y BYD
AC YN RHAGORI'N
RHYNGWLADOL
2021 Research Excellence Framework

12FED YN Y DU
Y 100 CYFLOGWR GORAU
Stonewall LGBTQ+ INCLUSIVE EMPLOYER GOLD AWARD 2023

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2023
6ED SAFLE BYWYD MYFYRWYR
6FED YN Y DU
BYWYD MYFYRWYR

25TH
YN U DU
GUARDIAN
UNIVERSITY GUIDE 2024

CLOD MAWR
GRŴP
RHWYDWAITH
CYFLOGWYR
LGBT+
Stonewall Workplace Equality Index 2023

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2023
8FED SAFLE ANSAWDD ADDYSGU A DARLITHWYR
YN Y 10 SAFLE UCHAF
AM DDARLITHWYR AC
ANSAWDD ADDYSGU

6ED
SAFLE AM Y
DDINAS FWYAF
DIOGEL I FYFYRWYR
YN Y DU
COMPLETE
UNIVERSITY GUIDE 2023

YN SAFLE 307
QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS
2024

# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

Rhan annatod o’n llwyddiant yw ein gallu i ddarparu addysgu ac ymchwil rhagorol, yn ogystal ag ansawdd bywyd o’r radd flaenaf i’n staff a’n myfyrwyr

Yn ein hanfod, rydym yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy’n nodweddiadol am werthoedd, diwylliant ac ymddygiadau arbennig sydd wrth wraidd ac yn tanategu’r pum piler strategol allweddol:

**1. Ein Cenhadaeth Ddinesig:** Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni.

**2. Profiad ein Myfyrwyr:** Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol a gallwn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd ein profiad i fyfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a’n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

**3. Ein Dysgu a’n Haddysgu:** Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o’n diben. Mae’n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog

**4. Ein Hymchwil:** Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae’n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig. Mae’n effeithio ar ein diwylliant, ein cymdeithas, ein hiechyd, ein lles, ein heconomi a’n planed.

**5. Ein Mentergarwch**: Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau’n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a’n cenedl.

Nodir pob un o’r meysydd hyn gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.




**EIN GWELEDIGAETH**

Rydym, a byddwn yn parhau’n Brifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy’n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi sy’n arwain y ffordd yn fyd-eang mewn amgylchedd agored sy’n galluogi ein myfyrwyr a’n cydweithwyr i ragori. Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner y gallant ymddiried ynddo, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i’n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru..

***Gweddw crefft heb ei dawn / Technical skill is bereft without culture***

golwg **ein gweledigaeth strategol a'n pwrpas** ar-lein

# RHAGORIAETH ADDYSGU

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol sy’n cynnig amgylchedd academaidd a chytbwys rhagorol sy’n galluogi myfyrwyr a staff i ragori. Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth, ar y cyd â’n gallu i dderbyn myfyrwyr sydd â thariffau mynediad isel, yn ogystal â chyflawni lefelau cyflogadwyedd graddedigion sy’n arwain y sector, yn dangos pa mor werthfawr yw profiad cyfoethog y myfyrwyr ac ansawdd yr addysgu yn ein Prifysgol. Mae ein Prifysgol yn un o sefydliadau addysg uwch blaenllaw’r DU am gynnydd dysgu, ac mae cyflogaeth graddedigion wrth wraidd ein darpariaeth. Ceir tystiolaeth o hyn yn y ffaith bod Abertawe yn y 6ed safle yn y DU ar gyfer Profiad Myfyrwyr ac yn y 23ain safle ar gyfer Hynt Graddedigion (Guardian University Guide 2020). Mae staff yn Abertawe wedi ymrwymo i ddatblygu’n broffesiynol, gan gynnig dysgu ysbrydoledig a thrawsnewidiol, sydd ar flaen y gad o ran gweithgareddau addysgu. Mae ein cymuned academaidd yn cynnwys unigolion sydd wedi cael cydnabyddiaeth annibynnol am yr hyn a gyflawnwyd ganddynt, megis; BMA Cymru Wales/ BMJ Athro Clinigol y Flwyddyn; Enillydd gwobr Arloesi WISE; Achubwyr y Genedl – 100 unigolyn gorau; Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol Advance HE; a llawer mwy. Caiff ein cydweithwyr addysgu gefnogaeth gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT), sy’n gartref i adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgaredd i wella dysgu ac addysgu. Yn ogystal, mae gennym nifer o academïau a gwasanaethau unigryw, sy’n manteisio ar ein henw da o ran ymchwil a phartneriaethau diwydiannol i gefnogi ein cynigion dysgu ac addysgu o’r radd flaenaf. Mae ein Hacademi Iechyd a Lles, o’r radd flaenaf, yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gydag ymarferwyr tra chymwys mewn amgylchedd proffesiynol, hamddenol a chyfeillgar. Mae’r academi yn cefnogi iechyd a lles pobl yn y rhanbarth lleol. Yn 2018, fe’i cydnabuwyd am yr hyn y mae wedi ei gyflawni; gan ennill categori Effaith Gymdeithasol a Chymunedol yng Ngwobrau Prifysgolion The Guardian. Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (SEA), mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, yn cynnig cyllid ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a arweinir gan fyfyrwyr. Mae SEA yn galluogi myfyrwyr i gymryd yr awenau yn eu mentrau eu hunain, gan sicrhau bod dysgu a phrofiad yn digwydd ar yr un pryd a chan arwain at gyfleoedd gyrfa llwyddiannus i raddedigion. Mae ein holl academïau yn canolbwyntio ar gyfoethogi rhagoriaeth dysgu ac addysgu, â’r nod o fwyafu’r buddion nid yn unig ar gyfer ein myfyrwyr a’n cydweithwyr, ond ar gyfer y gymuned ehangach hefyd




**Yr Academi Iechyd a Llesiant**
Dyma fenter yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, gan gefnogi iechyd a lles pobl yn ne-orllewin Cymru.

# RHAGORIAETH YMCHWIL

Mae Prifysgol Abertawe yn sefydliad angor â phwyslais mawr ar ymchwil, sy'n creu effaith economaidd, gymdeithasol, ddiwydiannol ac iechyd â chyrhaeddiad byd-eang. Rydym yn parhau i adeiladu ar ein treftadaeth gyfoethog o ddarganfyddiadau ac ymchwil ar sail gwybodaeth a'r ysbryd arloesol sydd wedi diffinio ein Prifysgol ers iddi gael ei sefydlu gan fyd diwydiant, ar gyfer byd diwydiant, ym 1920.

Rydym yn adnabyddus am gyd-greu a chyflwyno arloesiadau trawsnewidiol, ac yn meithrin cydweithrediadau uchelgeisiol â phartneriaid ym myd diwydiant, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae ein cryfderau mewn ymchwil ac arloesi rhyngddisgyblaethol ar draws ein tair Cyfadran (Gwyddoniaeth a Pheirianneg, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, a Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd) yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a dyfodol pobl drwy ymchwil ac effaith ragorol, ddibynadwy a chyfrifol.

Cyflwynwyd gwaith y nifer uchaf erioed o ymchwilwyr (578) i'w asesu yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, sy'n gynnydd o 56% ar y 370 a gyflwynwyd yn 2014. Rydym wedi tyfu ein canran gyffredinol o ymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac sydd ar flaen gad o 80% yn 2014 i 86% yn 2021, a barnwyd bod mwy na 90% o'n heffaith o'r radd flaenaf neu'n rhyngwladol ragorol o ran eu cyrhaeddiad a'u harwyddocâd.

Fel sefydliad Addysg Uwch ymchwil ddwys yng Nghymru, rydym yn cyfrannu at "ddwy flaenoriaeth" Llywodraeth Cymru "o gyflwyno cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus" a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), gan gyfrannu at gynnydd o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

**1090**

**O YMCHWILWYR ARLOESOL**

**91%**

AMGYLCHEDD YMCHWIL Y BARNWYD EI FOD 'O'R RADD FLAENAF' NEU'N 'RHYNGWLADOL RAGOROL'

(REF 2021)

**YMYSG Y 400**

**SAFLE GORAU YN YN NHABLAU BYD-EANG QS**

**578**

CYFLWYNWYD GWAITH 578 O YMCHWILWYR I'W ASESU

(REF 2021)



## ARLOESEDD A MENTERGARWCHMENTERGARWCH

Sefydlwyd Prifysgol Abertawe gan ddiwydiant ym 1920 i gyflawni er lles diwydiant. Mwy na chan mlynedd yn ddiweddarach, rydyn ni'n parhau i feithrin cysylltiadau nodedig â phartneriaid masnachol a diwydiannol ar draws amrywiaeth o sectorau. Rydym yn arwain Cymru mewn meysydd ymchwil hollbwysig i dwf economaidd a lles y boblogaeth, gan gynnwys yn y Gwyddorau Amgylcheddol, Meddygaeth a Pheirianneg.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo a chefnogi gwaith cydweithredol sy'n arwain at arloesi. Rydym yn ymfalchïo yn y mentrau arobryn sy'n deillio o'n Prifysgol, ac yn gweithio'n rhagweithiol gyda hi. Ar hyn o bryd, mae gennym:

- fwy na 40 cwmni wedi'u cydleoli ar ein campysau;
- mwy na 30 menter ddeilio ar Gampws y Bae ers iddo agor yn 2015
- £80m mewn incwm ymchwil HEBCI gydweithredol– ein swm uchaf erioed a chynnydd o £6m ers 2021

Rydym yn gwrando ar anghenion busnes ac rydym wedi datblygu cydweithrediadau strategol effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, gan helpu i;

- oresgyn heriau diwydiant a darganfod cyfleoedd Newydd
- darparu mynediad i ddoniau ar gyfer diwydiant a sgiliau y bydd galw mawr amdanynt yn y dyfodol i'r myfyrwyr
- darparu cyfleoedd masnachol megis cydleoli canolfannau blaenllaw diwydiant. I gydnabod pwysigrwydd ein Prifysgol i Ddinas-ranbarth Bae Abertawe, ac ar y cyd â Chyngor Abertawe, rydym wedi addo creu mwy o swyddi, gwella addysg a pharhau i hyrwyddo diwylliant o fentergarwch ac arloesedd. Mae gennym nifer o bartneriaethau arwyddocaol, hirdymor â diwydiant, gan amrywio o TATA a Rolls Royce i'r DVLA a SKY.

**Bargen Ddinesig**

Mae Prosiect Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £132m, a arweinir gan Brifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Partneriaeth Cydweithrediad Rhanbarthol ar gyfer Iechyd (ARCH) a phartneriaid allweddol yn y sector preifat, wedi sicrhau £15m i ddatblygu safleoedd yn Nhreforys a Singleton. Bydd yn hyrwyddo arloesi a thwf busnes yn y sectorau technoleg feddygol a thechnoleg chwaraeon sy'n ehangu, a disgwylir iddo agor tua diwedd 2026.

Dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a Tata Steel UK, bydd de Cymru'n adeiladu ar ei chryfder a'i harbenigedd mewn arloesi ym maes dur a metelau wrth lansio cyfleuster newydd gwerth £20 miliwn, SWITCH: South Wales Industrial Transition from Carbon Hub.

Yn y cyfleuster newydd, y disgwylir iddo fod yn weithredol tua diwedd 2025, bydd ymchwilwyr academaidd, cynrychiolwyr o'r llywodraeth a diwydiant yn cydweithredu i gynnig atebion arloesol ymarferol er mwyn datgarboneiddio'r sector dur a metelau a'i gadwyn gyflenwi.

**Cyfrifon Cyflymu Effaith**

Gan adeiladu ar lwyddiant Cyfrif Cyflymu Effaith yr EPSRC dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyfrifon cyflymu effaith y Brifysgol wedi derbyn mwy na £2 filiwn i gefnogi portffolio o weithgareddau dros y pum mlynedd nesaf, gan ddechrau o 2022. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys dyfarniad gan yr ESRC (y swm i'w gadarnhau), £450,000 gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), £450,000 gan y Cygnor Ymchwil Meddygol (MRC) a £1,158,212 gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC)

# PARTNERIAETHAU STRATEGOL RHYNGWLADOL

Mae gennym ni nifer o Bartneriaethau Strategol Rhyngwladol (ISPs) sy'n arwain y sector.

Mae'r Partneriaethau hyn yn nodweddiadol am led a dyfnder y cydweithrediadau sy'n cynnwys ymchwil, addysgu, a symudedd ar draws ystod eang o feysydd pwnc.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gwelwyd cynnydd o 91% yn nifer y myfyrwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd byd-eang rydym yn falch o'u cynnig. Mae ein Strategaeth Ryngwladol 2020 – 2025 yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ryngwladoli cynhwysfawr, a ddangosir trwy weithredu, i gynnwys safbwyntiau rhyngwladol a safbwyntiau cymharol yn holl weithgarwch addysgu, ymchwil, a chyfnewid gwybodaeth ein Prifysgol.

Mae partneriaethau dwfn, wedi'u creu ar y cyd â nifer fach o brifysgolion tramor o ansawdd uchel, wrth wraidd ein strategaeth.

CYDWEITHIO Â

**127 O WLEDYDDYM**

**MHEDWAR BAN BYD**



# CADARNLE AR GYFER YR IAITH GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Mae Prifysgol Abertawe'n brifysgol ddwyieithog ac yn gadarnle ar gyfer yr iaith Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

.

O ddechreuadau di-nod fel Coleg Prifysgol lleol dros ganrif yn ôl, heddiw rydym yn hyderus ac yn falch o fod yn Brifysgol i Gymru.

Rydym yn hyrwyddo ac yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg wrth fod yn ddigon cryf i gystadlu â llawer o sefydliadau gorau'r byd.

Rydym yn angor diwylliannol ac economaidd yn ein cymuned, ac mae gennym rôl ddynodedig i'w chwarae wrth ysgogi datblygiad rhanbarthol, gan gynnwys eirioli dros defnyddio'r Gymraeg. Rydym yn ymrwymedig i Safonau'r Gymraeg ac yn gwbl gynhwysol wrth groesawu myfyrwyr, cydweithwyr, partneriaid a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mha ffordd bynnag y dymunant wrth ryngweithio â ni.



# ACADEMI HYWEL TEIFI

Academi Hywel Teifi yw pwerdy Cymraeg y Brifysgol - canolfan ragoriaeth ar gyfer astudio'r Gymraeg a'i diwylliant, gan hyrwyddo dysgu ac addysgu Cymraeg ar draws yr ystod o bynciau..

Fe'i sefydlwyd yn 2010 er cof am yr Athro Hywel Teifi Edwards, cyn-Athro'r Gymraeg yn y Brifysgol ac un o enwogion y genedl.

Er bod yr Academi'n gartref i dîm craidd o staff, mae hefyd yn gymuned i'r holl gydweithwyr sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg ac i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ar y campws. Mae'n gweithio i sicrhau statws uwch i'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd yn ein Prifysgol ac yn ne-orllewin Cymru

Drwy weithgareddau amrywiol, mae'n cefnogi, yn cynyddu ac yn cyfoethogi darpariaeth ac ymchwil Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac yn annog cydweithio, entrepreneuriaeth a chyfleoedd. Y nod yw sicrhau bod myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cael y gorau o ddau fyd - Profiad Cymraeg mewn prifysgol â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol

**Mae'r Academi'n gartref i'r canlynol;**

**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** - Cangen Prifysgol Abertawe: Mae'n cynllunio ac yn cefnogi darpariaeth addysg uwch Gymraeg mewn ffordd strategol ar draws prifysgolion Cymru. Mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau a datblygu cyfleoedd i astudio yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr, myfyrwyr a phrentisiaid.

**Dysgu Cymraeg -** Rhanbarth Bae Abertawe: Yn cyflwyno cyrsiau a gweithgareddau iaith o safon ar ran y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg, i Ddinas Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port

**T ^ y'r Gwrhyd** - Partneriaeth rhwng Academi Hywel Teifi a Chyngor Castell-nedd Port Talbot, (a dderbyniodd grant gan Lywodraeth Cymru gwerth £300,000) i greu canolfan gymunedol Gymraeg yng nghanol Cwm Tawe.Talbot

# EIN POBL A DIWYLLIANT PRIFYSGOL

*A MANTEISION GWEITHIO YM MHRIFYSGOL ABERTWE*

# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A

Ein pobl yw ein hased pwysicaf ac maent yn diffinio ein Prifysgol. Rydym yn sefydliad egwyddorol. Rydym yn deall bod ein hymddygiad beunyddiol yn bwysig; mae gennym ffydd yn ein gilydd, rydym yn ein cefnogi ein gilydd, rydym yn dathlu cyflawniadau ein gilydd ac yn dwyn ein gilydd i gyfrif. Rydym yn parchu ein cydweithwyr ac yn trin eraill fel byddem yn disgwyl iddynt ein trin ni, ac rydym yn gweithio fel un brifysgol, gan gydnabod bod pob cydweithiwr yn cyfrannu at ein llwyddiant.

Rydym yn gwerthfawrogi pobl am eu sgiliau waeth beth fo'u cefndir.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i bawb ac rydym yn falch o fod wedi cael ein cydnabod gan ein myfyrwyr am hyn. Mae tystiolaeth i'w gweld yn ein gwobr arian ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant yng ngwobrau WhatUni 2021.

Rydym yn falch o fod yn:

- Gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Achrededig
- Aelod Siarter Athena SWAN
- Aelod Cyflogwyr i Ofalwyr
- Aelod Siarter Cydraddoldeb Hiliol
- Un o 100 cyflogwr gorau Stonewall
- Aelod Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr



## CAU'R BWLCH CYFLOG RHYW

**MEAN GAP: 14.6%**

**6.2%** DECREASE over 5 years

2022 BENCHMARKS
UK HE: 14.8
Wales HE: 14.7

**MEDIAN GAP: 5.5%**

**8.2%** DECREASE over 5 years

2022 BENCHMARKS
UK HE: 13.7
Wales HE: 8.5

Rydym yn falch ein bod wedi lleihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau am bum mlynedd yn olynol. Ar hyn o bryd, rydym yn achub y blaen ar ein targedau ein hunain a'r meincnodau addysg uwch, sy'n golygu bod ein cynnydd yn arwain y sector.

## WEDI YMRWYMO I GRADADDOLDEB HILIOL

[SIREN] RHWYDWAITH CYDRADDOLDEB HILIOL RHYNGWLADOL ABERTAWE

Mae SIREN, ein grŵp ymgynghorol, cymorth a chymdeithasol, yn cysylltu'r Brifysgol â chydweithwyr sy'n frwd dros gydraddoldeb hiliol er mwyn dylanwadu ar newid cadarnhaol.

Hate Crime Charter · Stonewall LGBTQ+ Inclusive Employer Gold Award 2023 · We are a Living Wage Employer · efc wales employers for carers · Athena SWAN Gender Charter · Race Equality Charter

Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiant.
Adroddiad am Gyflogau'r Rhywiau

# BUDDION GWEITHIO YM MHRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn darparu amgylchedd gweithio ardderchog sydd heb wahaniaethu annheg, sy'n cael ei gefnogi gan gymunedau cynnes a chroesawgar ein campysau, ac sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial personol.

Rydym yn gwybod bod gan bobl ymrwymiadau y tu allan i'w swydd. Rydym yn ceisio helpu cydweithwyr i sicrhau'r cydbwysedd cywir iddynt rhwng gwaith a bywyd. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion – o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd, i fentrau gweithio ystwyth a lles, disgowntiau ac arbedion, a mwy! – ac maent i gyd wedi'u cefnogi gan wasanaethau ein hadran Adnoddau Dynol arobryn a'n timau iechyd a lles.

Yn ogystal â buddion y staff, mae ein cydweithwyr hefyd yn cael mynediad at ein timau cymorth a'n hacademïau arbenigol, gan gynnwys:

**Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT)**
Mae SALT yn gartref i adnoddau a chymorth ar gyfer pob gweithgarwch dysgu ac addysgu.

**Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi (REIS)**
Mae REIS yn cefnogi syniadau drwy gydol y cylch ymchwil, o gipio grantiau, i reoli prosiectau, masnacheiddio ymchwil, a datblygu syniadau busnes.

**Academi Iechyd a Llesiant o'r radd flaenaf**
Gall cydweithwyr elwa o ymarferwyr hynod gymwysedig, mewn amgylchedd proffesiynol, anffurfiol a chyfeillgar, wrth helpu i hyfforddi ein myfyrwyr.

**Darganfod mwy: Buddion a Gwobrau yn Abertawe**



**PENSIYNAU** cyfraniadau cyflogwr hyd at 21.6%, gan ddibynnu ar radd y rôl a darparwr y cynllun

**OPSIYNAU SY'N YSTYRIOL O DEULUOEDD A GWEITHIO YSTWYTH**
gan gynnwys 31 diwrnod o wyliau blynyddol *+ gwyliau banc a gweithio ystwyth*

**CYFLOGAU CYSTADLEUOL**
a theg, a ninnau'n gyflogwr sy'n talu Cyflog Byw Gwirioneddol

**GWASANAETHAU LLES AM DDIM AC AM DDISGOWNT**
gwasanaethau cwnsela staff, cymorth iechyd meddwl ac osteopatheg

**PORTH DISGOWNTIAU AR-LEIN** cynigion manwerthu ac adloniant

**DISGOWNTIAU A GWOBRAU CHWARAEON A CHYNALIADWYEDD**
disgowntiau ar aelodaeth canolfannau chwaraeon, cynllun Beicio i'r Gwaith

**GWASANAETHAU DATBLYGU A HYFFORDDIAN**
ar gyfer cydweithwyr academaidd ac yn y gwasanaethau proffesiynol

# DINAS ABERTAWE

Mae Abertawe'n ddinas arfordirol hardd a chosmopolitan sy'n cynnig ansawdd bywyd rhagorol. Dinas Cymru ar Lan y Môr a man geni Dylan Thomas, mae'n ddinas forwrol fywiog a chanddi boblogaeth o 240,000.

Yn sgîl y Cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, denwyd buddsoddiad gwerth £10.2 miliwn i ganol y ddinas. Creodd y prosiect gannoedd o swyddi, yn ogystal ag ailddatblygu 58,000 o droedfeddi sgwâr o ofod masnachol. Bydd y ddinas yn parhau i ddatblygu'n gyflym yn sgîl rhagor o fuddsoddiadau a chyfleoedd modern.

Mae gan y ddinas gysylltiadau uniongyrchol â Llundain a Manceinion ac mae'n daith fer ar y trên o Gaerdydd.

A hithau'n 'Ddinas Hawliau Dynol' gyntaf Cymru, mae'n ddinas ddathlu lewyrchus. Dros y blynyddoedd, mae wedi dod yn lle sy'n fwyfwy amrywiol a chynhwysol i fyw a gweithio ynddo. Mae'n elwa o bobl a diwylliannau o bedwar ban byd wrth wraidd canol y ddinas lle ceir gwahanol fwydydd, dathliadau, diwylliannau a bywyd cymunedol. Mae Abertawe'n cynnig llawer o leoedd i'n cymuned ryngwladol deimlo'n gartrefol. Mae'n llwyddo i gynnig dechrau da i blant drwy ei sefydliadau addysgol yn ogystal â chyfleoedd hamdden. Mae'n annog pobl i ddysgu'n llwyddiannus, gan roi cyfleoedd i bawb elwa o le da i fyw a gweithio.

Tafliad carreg i ffwrdd yn unig, ceir pentref xy Mwmbwls, a oedd yn gyrchfan gwyliau poblogaidd yn oes Fictoria. Mae'r pentref, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel 'Porth Gŵyr, yn cynnig dewis gwych o atyniadau, gan gynnwys pier, siopau dillad traddodiadol, siopau crefftau a chaffis hufen iâ. Mae Penrhyn Gŵyr – a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf Prydain – yn ymestyn i'r gorllewin o'r Mwmbwls, gan gynnig cyfres o dirweddau arfordirol a gwledig hyfryd.

I'r dwyrain, mae 'Gwlad y Sgydau' yn Afan a Chwm Nedd yn hafan i gerddwyr a beicwyr fel ei gilydd. Wrth deithio i'r gorllewin, byddwch yn cyrraedd yr unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain: Sir Benfro. Mae Abertawe yn elwa hefyd o fod yn agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd awr yn unig o daith o'r ddinas.













# EIN TIM ARWAIN

## UWCH-DÎM ARWEINYDDIAETH

Cyfadran y Dyniaethau a’r Gwyddorau Cymdeithasol; y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddorau Bywyd; y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg a chaiff ei harwain gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth sy’n cynnwys:

**Is-ganghellor**
**Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu**
**Dirprwy Is-ganghellor (Addysg)**
**Dirprwy Is-ganghellor (Rhyngwladol)**
**Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)**
**Dirprwy Is-ganghellor (Cyfadran y Dyniaethau a’r Gwyddorau Cymdeithasol)**
**Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd)**
**Dirprwy Is-ganghellor (Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg)**
**Prif Swyddog Ariannol**

## GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Proffesiynol yn cefnogi gwaith ein Prifysgol maent yn gyfrifol am sicrhau gwasanaethau proffesiynol effeithiol ac effeithlon ar draws gweithgareddau ein Prifysgol.

Adnoddau Dynol
Cyllid
Gwasanaethau Academaidd
Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau
Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi
Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol
Swyddfa’r Is-ganghellor
Ystadau a Rheoli Cyfleusterau
Yr Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol

## Y CYNGOR

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu a phrif awdurdod y Brifysgol, sy'n golygu ei fod yn atebol yn y pen draw am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol ac am gyllid, eiddo, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau ansawdd a safonau darpariaeth academaidd y Brifysgol ac mae'n cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.



[Arweinyddiaeth Y Brifysgol](#)
[Aelodaeth Y Cyngor](#)

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# CYFADRAN MEDDYGAETH LECHYD A GWYDDORAU BYWYDD

# Y GYFADRAN MEDDYGAETH, IECHYD A GWYDDOR BYWYD



CYFANSODDIAD STAFF (staff y Gyfadran ym mis Mehefin 2023)

**HIL:**

**13%** GYDWEITHWYR O LEIAFRIFOEDD ETHNIG

**62%** yn fenywaidd

**38%** yn wrywaidd

Yr Adeilad Gwyddor Data, Campws Singleton

Mae'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn gartref i gymuned fywiog o staff a myfyrwyr, wedi'u dwyn ynghyd gan uchelgais i wella iechyd a lles a chyfoeth y gymdeithas drwy ymchwil, addysg ac arloesi. Rydym yn darparu ymchwil ac arloesi o safon fyd-eang sy'n llywio ein haddysg iechyd proffesiynol a gwyddorau bywyd.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn 2016, roedd ein Hysgol Meddygaeth yn falch o fod y gyntaf i ennill Gwobr Arian Siarter Athena SWAN yr Uned Her Cydraddoldeb (ECU) ar lefel adrannol. Ers hynny, rydym wedi llwyddo i gwblhau nifer o gyflwyniadau i gynnal y Wobr Arian hon, yn ogystal â pharhau i ymgeisio am wobrau ychwanegol. Mae'r ymrwymiad hwn yn bwysig iawn i ni. Rydym yn gweithredu ein Cynllun Gweithredu yn rhagweithiol i sicrhau bod pob aelod o staff a phob myfyriwr yn cael ei gynrychioli'n gyfartal.

Ar hyn o bryd, mae gennym ddwy wobr Athena Swan:

- **Seicoleg ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol** (Arian)
- **Yr Ysgol Feddygaeth** (Arian)

Ar hyn o bryd, mae dynion a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi'u tangynrychioli yn ein cyfadran. Rydym yn mynd i'r afael â hyn yn weithredol ac yn croesawu ceisiadau gan y ddau grŵp.

Penodir ar sail teilyngdod bob amser.

ATHENA SWAN SILVER

ATHENA SWAN SILVER

Cwrdd â'r Tîm - gweler proffiliau staff ein cyfadran ar-lein

# Ein Hysgolion

## YR YSGOL FEDDYGAETH

Yn gartref i Raglen Meddygaeth i Raddedigion Llwybr Carlam Cymru ac ystod o raglenni BSc Geneteg a Biocemeg, mae ein Hysgol Feddygaeth yn hyfforddi gwyddonwyr bywyd y dyfodol.

## YR YSGOL SEICOLEG

Yn ddiweddar, fe'i dyfarnwyd yn y 250 uchaf yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS World ar lefel pwnc sy'n adlewyrchu pwyslais yr Ysgol ar feithrin graddedigion o safon. Mae'r Ysgol yn amgylchedd dysgu cyfeillgar a chefnogol sy'n darparu addysgu gan ymchwilwyr ac academyddion sy'n arwain y byd yn eu maes.

## YSGOL Y GWYDDORAU CYMDEITHASOL

Rydym yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ym mhedwar ban byd, gyda'n hymchwil sy'n torri tir newydd a'n gwaith gyda'r GIG, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r sector preifat.

Mae ein hystafelloedd clinigol a’n labordai rhagorol yn paratoi ein myfyrwyr i fod y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn hyfforddi graddedigion ar gyfer y gweithle â rhagolygon gyrfa ardderchog.





# YMCHWIL

Mae gan y Gyfadran gymuned ymchwil fywiog sy'n denu cyllid ymchwil o ffynonellau mawr eu bri a myfyrwyr PhD cyffrous. Mae cyllid ymchwil sylweddol a ddyfarnwyd i'r gyfadran yn ddiweddar yn cynnwys y British Heart Foundation, UKRI, a SMART Expertise drwy Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â heriau byd-eang a gwella iechyd, cyfoeth a lles y gymdeithas. Mae cryfder cymuned ymchwil y Gyfadran yn ei phobl ac yn ei huchelgais am ragoriaeth. Drwy weithio ar y cyd ar draws themâu ymchwil y gyfadran, mae ein hymchwilwyr dawnus yn gallu gwthio ffiniau yn eu meysydd a'u harloesedd yn y gymuned ymchwil a'r tu hwnt iddi.

Ar y cyd, mae gennym dros 25 mlynedd o brofiad o hyrwyddo ymchwil i wella iechyd, lles a chyfoeth. Rydym yn mynd â dealltwriaeth o ochr y gwely i'r fainc ac yn ôl eto, gan arwain at effaith yn y byd go iawn a chanlyniadau gwell i gleifion. Mae ansawdd ein hymchwil wedi cael ei gydnabod yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, pan nodwyd bod 85% o ymchwil ein cyfadran yn arwain y ffordd yn fyd-eang neu'n rhagorol yn rhyngwladol yn gyffredinol (REF2021).





# Addysgu a Chyfleusterau

## DDYSGU

Rydym yn Ysgol Feddygaeth o fri yn y DU a leolir yn ne-orllewin Cymru hardd. Rydym yn addysgu ac yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o feddygon, gwyddonwyr bywyd, a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ein cenhadaeth yw gwella iechyd, cyfoeth a lles pobl Cymru a'r byd.

Rydym yn cydweithio â'r GIG, busnesau a'r trydydd sector mewn ysbryd o arloesi agored ac rydym wedi sefydlu'r Ysgol fel lle o safon fyd-eang ar gyfer dysgu, ymchwilio ac arloesi.

## CYFLEUSTERAU

Mae gan y Sefydliad Gwyddor Bywyd gyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf, mewn adeilad chwe llawr pwrpasol y buddsoddwyd £52 miliwn ynddo, ar Gampws Parc Singleton y Brifysgol.



**ADEILAD GWYDDOR DATA,** Parc Singleton

# CYFLEUSTERAU

Mae'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn buddsoddi'n barhaus yn ei seilwaith o'r radd flaenaf.

**Ffeithiau a Ffigurau:**

- 13 adeilad dros 2 gampws a mwy na 4 lleoliad allanol yng Nghymru a'r tu hwnt
- Mwy na 200 o labordai addysgu ac ymchwil gyda miloedd o fathau o offer technoleg uchel, maint bach i fawr
- Swyddfeydd academaidd modern
- 29 o labordai cyfrifiaduron yn y Gyfadran, mwy na 3,500 o gyfrifiaduron/liniaduron a meddalwedd gysylltiedig

Gallwch fynd ar daith o’n cyfleusterau yma

**swansea.ac.uk/virtual-tour-stand-alone/**









# YN FALCH O'N GWEITHLU

Mae'r Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn cynnwys tua 1,500 o staff, ac mae hyn yn cynnwys dros 350 o staff academaidd.

Yn y Gyfadran, rydym yn falch bod gennym staff sy'n Gymrodyr mewn gwahanol gymdeithasau gan gynnwys y Gymdeithas Frenhinol, Academi Frenhinol Peirianneg a Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Hefyd, mae nifer o'n staff yn meddu ar naill ai OBE, CBE neu MBE.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr bwysigrwydd dilyniant gyrfa ac yn gweithio gydag unigolion i sicrhau bod ganddynt y cyfarpar, y cyllid a'r cymorth y mae eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus.

Rydym yn falch ein bod wedi llofnodi Ymrwymiad y Technegwyr ac mae aelodau'r Gyfadran yn arwain Grŵp Llywio Ymrwymiad Technegwyr y Brifysgol.


**Gwobrau a Dyfarniadau**

- Dyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines i'r Gyfadran yn 2021 am ei hymchwil i Dechnoleg Ynni Adnewyddadwy

- Athena Swan – Gwobr Arian mewn Peirianneg, Gwobrau Efydd yn y Biowyddorau, Daearyddiaeth a Ffiseg.

**Cymuned**


Rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i annog cydweithwyr i ddod at ei gilydd. Bob blwyddyn, bydd y Gyfadran yn cynnal barbeciw haf a pharti Nadolig. Hefyd, ceir sgyrsiau pwnc ynghylch iechyd a lles a sesiynau grŵp ar bynciau amrywiol.
















Prifysgol Abertawe
Swansea University

# ADEG GYFFROUS I YMUNO Â NI

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn gwneud gwahaniaeth ers 1920. Fwy na chan mlynedd yn ddiweddarach, rydym yn parhau i ragori a thyfu â phwrpas ac uniondeb.

Mae ein campysau glan môr trawiadol yn ein gwneud yn lleoliad dymunol ar gyfer staff o bedwar ban byd, ac mae ein cymuned amlddiwylliannol yn cynnig agwedd fyd-eang, gan alluogi'r rhai hynny sy'n ymuno â ni i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i hybu eu gyrfaoedd.

**YMUNWCH Â NI A HELPWCH I LYWIO EIN CANRIF NESAF O ARLOESEDD A RHAGORIAETH**

https://www.swansea.ac.uk/cy/swyddi-yn-abertawe/